# Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021

**2021 dsc 2**

*Prif ddarpariaethau*

**8 Pŵer pellach i amrywio dyddiad etholiad 2021**

(1) Mae’r adran hon yn gymwys os pennir y diwrnod ar gyfer cynnal pôl etholiad 2021 o dan adran 6.

(2) Caiff y Llywydd gynnig, ar gyfer cynnal y pôl, ddiwrnod nad yw’n fwy nag un mis yn gynharach, nac yn fwy nag un mis yn ddiweddarach, na’r diwrnod a bennir o dan adran 6.

(3) Ni chaniateir i’r pŵer o dan is-adran (2) gael ei arfer er mwyn cynnig dyddiad ar ôl 5 Tachwedd 2021.

(4) Os yw’r Llywydd yn cynnig diwrnod o dan is-adran (2), caiff Ei Mawrhydi drwy broclamasiwn o dan y Sêl Gymreig—

(a) diddymu Senedd Cymru;

(b) ei gwneud yn ofynnol i’r pôl yn yr etholiad gael ei gynnal ar y diwrnod a gynigiwyd.

(5) Cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol ar ôl i broclamasiwn gael ei wneud o dan is-adran (4), rhaid i’r Llywydd gyhoeddi datganiad—

(a) o’r diwrnod y mae’r pôl i’w gynnal, a

(b) o’r rheswm dros arfer pŵer y Llywydd o dan is-adran (2).